# PROSIECT Y MAWNDIROEDD COLL

## Cyflwyniad

Adferodd prosiect y Mawndiroedd Coll, prosiect partneriaeth ar raddfa tirlun a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, ryw 240 hectar o fawndir yng Nghymoedd Afan Uchaf (Castell-nedd Port Talbot) a'r Rhondda Fawr (Rhondda Cynon Taf), gan helpu cymunedau lleol i archwilio a mwynhau eu treftadaeth naturiol.




# PROSIECT Y MAWNDIROEDD COLL

# Safleoedd y Prosiect

Adferwyd mawndiroedd yn Ardaloedd Adfer Cynefinoedd y prosiect, y cyfeirir atynt fel Ardal Adfer Cynefin (AAC) Cregan (ger Glyncorrwg), AAC Cwm Saerbren (ger Blaengwynfi) ac AAC Castell Nos (ger Aberdâr).

Gwnaed gwaith rheoli cynefinoedd ym Lle Gwyllt Cymunedol y prosiect yn y Cymer, Glyncorwg, Gwynfi, Cwmparc, Blaencwm a Hendre'r Mynydd.



# PROSIECT Y MAWNDIROEDD COLL

## Esbonio Mawndiroedd

Efallai byddwch chi'n eu hadnabod yn syml fel 'corsydd', ond mae mawndiroedd yn gynefinoedd amrywiol, a ffurfiwyd dros filoedd o flynyddoedd, sy'n cynnwys symiau eithriadol o garbon ac yn cynnal gwead amrywiol o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid. Mae mawndiroedd yn gorchuddio 3% yn unig o arwynebedd tir y ddaear, ond serch hynny, maent yn storio dwywaith cymaint o garbon â choedwiggoedd y byd (pwylgor cenedlaethol IUCN y Deyrnas Unedig).

Gelwir tirweddau lle ceir croniad o fawn yn **fawndiroedd**, ni waeth a ydynt yn llystyfiant mawndir, neu a oes ganddynt amodau i ffurfio mawn. Fodd bynnag, mae llawer o drafod ynghylch pa mor ddwfn mae'n rhaid i'r mawn fod. Enw arall ar fawndir sy'n ffurfio mawn yw **mignen**.

Yn y Deyrnas Unedig, mae mawndiroedd fel arfer yn cael eu dosbarthu'n dri grŵp: gorgors, cyforgors a ffen. Mae **cyforgorsydd** fel arfer yn cychwyn mewn pantiau iseldir, lle bydd cromenni mawn yn ymffurfio yn y pen draw uwchben y tir o amgylch. Daw dŵr i'r rhain o waddodiad yn unig. Mae **ffeniau**, ar y llaw arall, yn derbyn dŵr o ddyddodiad a dŵr sy'n dod i gysylltiad â chreigiau dan yr wyneb. Cynefinoedd dwrlawn yw **gorgorsydd**, sy'n derbyn dŵr o ddyddodiad yn unig. Ceir hyd i orgorsydd mewn ardaloedd ucheldir sydd â hinsawdd oer, dymherus, lefel uchel o lawiad, ac ychydig o ddraenio. Gall gorgorsydd 'orchuddio' rhannau helaeth o'r dirwedd, ac maent yn cynnwys haen drwchus o bridd mawn llawn asid a ffurfir gan ddeunydd planhigion sydd wedi pydru'n rhannol, Migwyn yn bennaf, sy'n crynho'i'n raddol dros amser. Mae'r rhan fwyaf o fawndiroedd yn tyfu 0.5 i 1mm yn unig y flwyddyn, sy'n golygu y gall gymryd dros 1,000 o flynyddoedd i 1m o fawn ymffurfio!


Mae prosiect y Mawndiroedd Coll wedi adfer mawndiroedd ar safleoedd HRA y prosiect i atal difrod pellach iddynt ac i ailsefydlu cynefin gorgorsydd mawn yn ucheldir Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Bwriad adfer mawndiroedd yw lleihau allyriadau carbon o fawndiroedd sydd wedi'u difrodi a sefydlu mawnogydd iach sy'n dal a storio carbon i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae mawnogydd iach yn darparu cynefin gwlyptir gyda mwy o fioamrywiaeth.



# PROSIECT Y MAWNDIROEDD COLL

## Esbonio Adfer

Roedd gwaith adfer mawndiroedd yn ardal y Prosiect Adfer Mawndiroedd yn cynnwys cadw dŵr ar dir a oedd wedi'i fforestu'n flaenorol. Er mwyn cyflenwi pren yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, rheolwyd ardaloedd yr ucheldiroedd ar gyfer coedwigaeth fasnachol. Rhoddwyd sianeli draenio yn y dirwedd i ddarparu amodau tyfu mwy sych ar gyfer coed a chafwyd tir tonnog o ganlyniad. Defnyddiwyd technegau adfer mawndiroedd gan y prosiect i greu topograffi mwy gwastad unwaith eto a chodi'r lefel trwythiad.



# PROSIECT Y MAWNDIROEDD COLL



Tirwedd ucheldiroedd bresennol



Planhigfa Gonifferaidd



Sianel Ddraenio



Ar ôl y gwaith adfer - Mosäig o argaeau mawn



Ar ôl y gwaith adfer -  
Tir llyfnach a lefel trwythiad uwch






# STORI'R MAWNDIROEDD COLL

## Newid y Dirwedd

Mae tirwedd y tir yn ardal y Prosiect Adfer Mawndiroedd wedi newid yn sylweddol ers diwedd yr oes iâ diwethaf. Mae'r newidiadau wedi dod o ganlyniad i brosesau naturiol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac, yn fwy sylweddol, gan weithgareddau dynol yn dilyn y Chwyldro Diwydiannol (1750-1900).

- 1) Rhewlifiant Defensaidd Hwyr** - roedd rhewlifau'n cario cerrig a oedd yn siapio dyffrynnoedd ffurf U ag ochrau serth gan adael mannau gwastad wrth iddynt doddi a datgelu twndra amrewlifol heb goed.
- 2) Fforestydd brodorol** - ffurfiwyd fforestrydd gan goed pinwydd, cyll, bedw a meryw a ddatblygodd i fod yn goetiroedd colddail cymysg
- 3) Ffermio Neolithig** - setliad tymhorol a ffermio defaid. Mae olion amgae carreg, postyn derw a gadwyd, offer a phennau saethau'n darparu tystiolaeth o'r Oes Fesolitig Hwyr i'r Oes Haearn.
- 4) Gorgorsydd mawn** - tyfodd migwynnau yn lle coed o ganlyniad i hinsawdd wlypach.
- 5 & 6) Mwyngloddio a Rheilffyrdd** - gwnaeth y diwydiant glo ddominyddu'r cymoedd gyda'i rwydwaith o reilffyrdd.
- 7) Coedwigaeth fasnachol** - plannwyd coedwigaeth fasnachol i ddarparu adnoddau pren.
- 8) Ynni adnewyddadwy** - gosodwyd ffermydd gwynt i ddarparu ynni adnewyddadwy.
- 9) Adfer mawndiroedd** - trawsnewidiodd ardaloedd a oedd wedi'u fforestu'n fasnachol yn gynefinoedd mawnog unwaith eto.



## Gweithgaredd Dysgu Tirlun sy'n Newid

### Cysylltiadau Cwricwlwm

#### **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Y Dyniaethau.

#### **Datganiad o'r hyn sy'n Bwysig:**

Mae ein byd yn amrywiol a deinamig, ac yn dod o dan ddylanwad prosesau a gweithredoedd dynol.

#### **Cyfleoedd i ddysgwyr:**

Lleoli a rhoi esboniadau syml am nodweddion unigryw lleoedd, gofodau a thirffuriau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.


Disgrifio patrymau gofodol lleoedd, amgylcheddau a thirffuriau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.

Rhoi disgrifiadau syml o sut mae lleoedd, amgylcheddau a thirffuriau wedi newid dros amser.



#### **Daearyddiaeth**

Holi, defnyddio a dadansoddi mapiau, delweddau a Systemau Gwybodaeth Daearyddol.



### Cynllun Gweithgareddau

1) Mae gan DataMapWales haen 'Mawndiroedd Cymru' ar y map;

[https://datamap.gov.wales/layers/geonode:peatlands\\_of\\_wales\\_scg8](https://datamap.gov.wales/layers/geonode:peatlands_of_wales_scg8)

a gall y dysgwyr ddisgrifio ble cawn ni hyd i fawn yng Nghymru. Gall y dysgwyr ddefnyddio'r map i gael hyd i fawn yn ardal prosiect y Mawndiroedd Coll, a ble mae eu hardal agosaf o fawn.

2) Gyda'r gweithgaredd dysgu 'Creu Model o Gors Mawndiroedd Coll', gall y dysgwyr ddefnyddio a delweddau y ardal prosiect (gweler yr Oriel), gwefan y prosiect [www.npt.gov.uk/lostpeatlands](http://www.npt.gov.uk/lostpeatlands) ac ap cerdded digidol

<https://peatlands.jamcreativestudios.co.uk/#/app-download> i ddisgrifio

nodweddion unigryw ardal y prosiect a ystyried sut a pham mae'r ardal wedi newid dros amser er mwyn deall bod mawn yn yr ucheldir ymhell cyn i bobl reoli'r tirlun.

The project area is as beautiful as the sky.

I saw  
lark green  
grass along  
the meadows  
and a mix of  
animals



# STORI'R MAWNDIROEDD COLL

## Gweithgaredd Dysgu Creu Model o Gors Mawndiroedd Coll

### Cysylltiadau Cwricwlwm

#### **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

#### **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.

#### **Cyfleoedd i ddysgwyr:**

Gwrando ar yr hyn sy'n cael ei glywed, ei ddeall a chyfleu'r ystyr, gan grynhai'r prif bwyntiau.

Ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau sawl cam.



**Rhifedd**  
Mesur hyd.

### Cysylltiadau Cwricwlwm

#### **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Dyniaethau.

#### **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae ein byd yn amrywiol a deinamig, ac mae prosesau a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.

#### **Cyfleoedd i ddysgwyr:**

Rhoi disgrifiadau syml o sut mae lleoedd, amgylcheddau a thirffurfiau wedi newid dros amser.

Disgrifio a rhoi esboniadau syml am effaith prosesau ffisegol ar dirweddau yn y gorffennol a'r presennol.

### Adnoddau Model o Gors

- **Cynhwysydd mawr clir** e.e. cwpan plastig ar gyfer diod / pot iogwrt mawr / potel diod rydych chi wedi torri'r rhan uchaf oddi arni / jar bwyd.
- **Gro mân.**
- **Tywod chwarae** neu reis brown/ffacbys. I atal yr haen hon rhag cymysgu â'r gro mân, gofalu fod y tywod rywfaint yn llaith, neu rhowch y deunydd a ddewiswyd mewn bag clir a thorri'r hyn sy'n ddiangen i ffwrdd cyn ei roi yn y cynhwysydd.
- **Peledi pren** neu ffyn bach / rhisgl tirweddu.
- **Clai** neu blastisîn wedi'i fowldio i siâp a'i estyn yn ofalus i ffitio diamedr y cynhwysydd.
- **Artefact anheddiad** e.e. darn arian / person lego / llun o bentref celtaidd wedi'i argraffu ar bapur gwrthddŵr neu ei lamineiddio.
- **Compost di-fawn.**



# STORI'R MAWNDIROEDD COLL

- **Mwsogl** gofalwch ei fod yn dod o ffynhonnell gynaliadwy, neu defnyddiwch hadau berw'r dŵr / sbyngau gwyrdd wedi'u torri'n ddarnau / gwlan gwyrdd.

## Dolenni fideo.



Cardiau 'Cyfnodau Ffurio Mawn'.



- Taflen waith 'Adeiladu Model o Gors Mawndiroedd Coll'.




## Cynllun Gweithgaredd

- 1) Gwylio'r fideo "Sut ffurfiwyd mawngorsydd yn ardal prosiect y Mawndiroedd Coll".
- 2) Gwylio'r fideo eto, ond y tro yma gyda seibiau, fel bod y dysgwyr yn cael cyfle i nodi geiriau allweddol neu greu brasluniau i grynhoi'r prif bwyntiau.
- 3) Caniatáu i'r dysgwyr drafod y prif bwyntiau a nodwyd cyn rhoi'r cardiau "Cyfnodau Ffurio Mawngors" yn nhrefn eu dilyniant.
- 4) Gwylio'r fideo "Sut mae creu model mawngors 'Mawndiroedd Coll'".
- 5) Naill ai penderfynu ymlaen llaw, neu drafod fel dosbarth, pa gynhwysydd a deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer y model a pha mor ddwfn dylai pob haen fod. Cofnodi penderfyniadau ynghylch pob haen ar y daflen "Adeiladu Model o Gors".
- 6) Adeiladu'r model.
- 7) Dysgwyr yn ysgrifennu neu'n recordio naratif sain i ddisgrifio sut mae tirwedd ardaloedd ucheldir Cymoedd Afan a'r Rhondda Fawr wedi newid dros amser. Dylai'r dysgwyr gynnwys esboniad o'r prosesau ffisegol sy'n ymwneud â ffurio mawngorsydd yn yr ardal. Deilliannau posibl fyddai;
  - label â brawddegau byr neu baragraff i'w roi ar y model
  - taflen gyfarwyddiadau ynghylch sut mae gwneud model o Gors gyda nodiadau addysgol
  - dyluniad panel dehongli i'w roi yn y tirlun
  - sgwrs ar gyfer taith gerdded yn y dirwedd i ddweud 'Stori'r Mawndiroedd Coll'
  - darn dogfennol ar fideo ar gyfer rhaglen deledu i blant
  - cyflwyniad Sway/PowerPoint.







# CYFNODAU YMFFURFIO MAWNGORSYDD




27,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd rhewlifoedd yn cario creigiau, a gerfiodd ddyffrynnoedd serth a llwyfandir gwastad.




9,000 o flynyddoedd yn ôl, toddodd y rhewlifoedd, gan adael gwaddodion yn llawn maetholynnau.



Tyfodd planhigion a choed yn y gwaddodion llawn maetholynnau.



Golchodd hinsawdd wlypach fwynau i lawr trwy'r pridd, gan ffurfio haen oedd yn peri i'r pridd fod yn ddwrlawn.



Bu carfannau o bobl yr Oes Efydd ac Oes yr Haearn yn teithiotrwy'r ardal yn dymhorol.



Cronnodd mawn yn y pridd dwrlawn llawn asid oherwydd body lefelau isel o ocsigen yn golygu bod mwsogl oedd yn marw yn pydru'n araf iawn (tua 0.5mm i 1mm y flwyddyn!).





Heddiw. Mewn cynefin cors iach, mae'r mwsogl yn amsugno dŵr glaw, ac wrth iddo farw, mae'n pydru i ffurfio mawn.





# ADEILADU MODEL O GORS MAWNDIROEIDD COLL

Deunydd	Swm	Cyfnod Ffurfio'r Gors
Gro mân	1 cm	27,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd rhewlifoedd yn cario creigiau, a gerfiodd ddyffrynnoedd serth a llwyfandir gwastad.
Tywod	1cm	9,000 o flynyddoedd yn ôl, toddodd y rhewlifoedd, gan adael gwaddodion yn llawn maetholynnau.
Peledi pren	1cm	Tyfodd planhigion a choed yn y gwaddodion llawn maetholynnau.
Clai	1/2 cm (0.5 cm)	Golchodd hinsawdd wlypach fwynau i lawr trwy'r pridd, gan ffurfio haen oedd yn peri i'r pridd fod yn ddwrlawn.
Arteffactau anheddiad	Darn arian	Bu carfannau o bobl yr Oes Efydd ac Oes yr Haearn yn teithio trwy'r ardal yn dymhorol.
Hyd at 1cm o'r brig	Compost di-fawn.	Cronnodd mawn yn y pridd dwrlawn llawn asid oherwydd bod y lefelau isel o ocsigen yn golygu bod mwsogl oedd yn marw yn pydru'n araf iawn (tua 0.5mm i 1mm y flwyddyn!).
Mwsogl	1 cm	Heddiw. Mewn cynefin cors iach, mae'r mwsogl yn amsugno dŵr glaw, ac wrth iddo farw, mae'n pydru i ffurfio mawn.







# ADEILADU MODEL O GORS MAWNDIROEIDD COLL



Deunydd	Swm	Cyfnod Ffurfio'r Gors
		27,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd rhewlifoedd yn cario creigiau, a gerfiodd ddyffrynnoedd serth a llwyfandir gwastad.
		9,000 o flynyddoedd yn ôl, toddodd y rhewlifoedd, gan adael gwaddodion yn llawn maetholynnau.
		Tyfodd planhigion a choed yn y gwaddodion llawn maetholynnau.
		Golchodd hinsawdd wlypach fwynau i lawr trwy'r pridd, gan ffurfio haen oedd yn peri i'r pridd fod yn ddwrlawn.
		Bu carfannau o bobl yr Oes Efydd ac Oes yr Haearn yn teithio trwy'r ardal yn dymhorol.
		Cronnodd mawn yn y pridd dwrlawn llawn asid oherwydd bod y lefelau isel o ocsigen yn golygu bod mwsogl oedd yn marw yn pydru'n araf iawn (tua 0.5mm i 1mm y flwyddyn!).
		Heddiw. Mewn cynefin cors iach, mae'r mwsogl yn amsugno dŵr glaw, ac wrth iddo farw, mae'n pydru i ffurfio mawn.



## Gweithgaredd Dysgu Archwilio rhywogaethau mawndir allweddol a Migwyn

### Cysylltiadau Cwricwlwm

#### **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Y Celfyddydau Mynegiannol.

#### **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae archwilio'r celfyddydau mynegeriannol yn hanfodol i ddatblyg sgiliau a gwybodaeth artistig, ac yn galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwifrydig, creadigol.

#### **Cyfleoedd i ddysgwyr:**

Archwilio ac arbrofi gyda thechnegau creadigol, arferion, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau priodol, ac yna dethol ohonynt.

**Daearyddiaeth -**  
Cyfesurynnau map.



### Cysylltiadau Cwricwlwm

#### **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

#### **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

#### **Cyfleoedd i ddysgwyr:**

Disgrifio nodweddion organebau a deall sut mae'r nodweddion hynny'n fodd iddyn nhw fyw, tyfu ac atgenhedlu er mwyn goroesi yn eu hamgylchedd.

#### **Llythrennedd**

Geirfa a sgwrs gydweithredol.



# RHYWOGAETHAU MIGWYN A MAWNDIROEDD

## Cysylltiadau Cwricwlwm

### **Maes Dysgu a Phrofiad:**

Mathemateg a Rhifedd.

### **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Defnyddir y system rifau i gynrychioli a chymharu'r berthynas rhwng rhifau a niferoedd.


Mae geometreg yn canolbwytio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â gofod, siâp a sefyllfa, ac mae mesuriadau'n canolbwytio ar fesur ffenomena yn y byd ffisegol.

### **Cyfleoedd i ddysgwyr:**

Ymgysylltu â thasau ymarferol i amcangyfrif a thalgrynnu rhifau i'r 10 a'r 100 agosaf.

Archwilio mesur, gan ddefnyddio cyfarpar mesur.

Amcangyfrif a mesur capaciti, mas ac amser, gan ddefnyddio unedau safonol priodol.



## Cynllun Gweithgaredd

- 1)** Mae dros 30 o rywogaethau o Figwyn yn y Deyrnas Unedig. Gall dysgwyr archwilio'r amrywiaeth o liwiau a geir mewn Migwyn trwy fynd ag "Olwyn Liwiau Migwyn" wedi'i lamineiddio allan a dod o hyd i ddeunyddiau naturiol i'w rhoi ar yr olwyn i gyfateb i bob lliw/rhywogaeth o Figwyn a gynrychiolir. Gall y dysgwyr ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau a thechnegau celf i gynhyrchu darlun o dirwedd mawndir, yn ddelfrydol gan gynnwys cymysgu liwiau paent i gyfateb i bob un o liwiau'r Migwyn a deunyddiau â gwead ar gyfer Migwyn 3D.
- 2)** Gall y dysgwyr ddarllen y "taflenni ffeithiau Migwyn" i ddysgu sut mae Migwyn wedi addasu i oroesi a dod yn 'flociau adeiladu' mawngorsydd. Gall dysgwyr wirfoddoli i wisgo i fyny a chael eu labelu ag addasiadau Migwyn i ategu'r dysgu cyn bod yr holl ddysgwyr yn cwblhau'r "daflen addasiadau Migwyn". Gall y dysgwyr ysgrifennu stori am anturiaethau Arafymudwr sy'n byw mewn Migwyn, neu ddylunio'u horganeb ficrosgopig eu hunain.
- 3)** Gall dysgwyr archwilio nodweddion dal dŵr Migwyn trwy gynnal ymchwiliad. (Gweler yr atodiad am weithgareddau trin data pellach.)
- 4)** Gall dysgwyr fynd ar daith synhwyraidd i brofi'r byd fel creadur mawndir a chofnodi geiriau i ddisgrifio'r profiad er mwyn cynhyrchu darn o gelf teipograffi. Gall dysgwyr greu eu hoff rywogaeth o glai, glanhawyr pib neu ddeunyddiau celf eraill a recordio brawddegau i esbonio sut mae'r rhywogaethau hyn wedi'u haddasu i oroesi.




# RHYWOGAETHAU MIGWYN A MAWNDIROEDD

## Adnoddau Gwisgo i Fyny Migwyn

**Trowsus gwyrdd** i gynrychioli'r coesyn sy'n rhoi ei gryfder i'r mwsogl.

- **Top gwyrdd llewys hir** i gynrychioli'r canghennau sy'n troi i fyny (dargyfeiriol) neu'n hongian lawr (crog).
- **Gwelltynnau** i'w cysylltu â'r canghennau sy'n hongian lawr i ddangos eu bod yn helpu i sugno dŵr, oherwydd nad oes gwreiddiau gan y planhigyn.
- **Llun o Figwyn wedi'i argraffu ar gerdyn** i'w gysylltu â'r gangen sy'n troi i fyny i ddangos bod cangau dargyfeiriol yn gallu torri'n rhydd i ffurfio planhigyn newydd.
- **Het werdd â 'pom pom'** i gynrychioli'r capitwlwm gyda chlwstwr o ddail, y mae'r planhigyn yn tyfu ohono.
- **Canol rhol cegin wedi'i lynu ar flwch hancesi papur â thâp a'i baentio'n wyrdd, gyda pheli tenis bwrdd (neu rywbedd tebyg)** y tu mewn i gynrychioli'r capsawl sy'n rhyddhau sborau o'r capitwlwm i dyfu'n blanhigion eraill (mae modd i ddysgwr arall ei ddal yn ei le, a thaflu'r peli'n ofalus).
- **Dail gwyrdd wedi'u hargraffu ar gardbord** i'w glynar ar y top a'r trowsus i gynrychioli'r dail sydd â chelloedd a luniwyd i storio dŵr.
- **Bagiau plastig bach clir wedi'u llenwi ag ychydig o ddŵr neu ddail gwyn wedi'u hargraffu ar gerdyn** i'w rhoi ar y top a'r trowsus i gynrychioli dail sydd â chelloedd a luniwyd i storio dŵr.
- **Pegiau/Clipiau fforchog/Llinyn** i roi eitemau ar ddillad.



# RHYWOGAETHAU MIGWYN A MAWNDIROEDD

## Taith Gerdded Synhwyraidd Cyfarwyddiadau

Cynllunio llwybr ar gyfer taith gerdded yn lleol neu mewn eich diroedd. Yn ystod y daith, aros mewn mannau priodol i ddarllen a thrafod yr wybodaeth am bob rhywogaeth. Bydd y dysgwyr yn cyflawni'r gweithgaredd a restrwyd ac yna'n cydweithio i gofnodi geiriau a/neu frawddegau sy'n gysylltiedig â'r profiad synhwyraidd. Mae modd defnyddio'r geiriau a/neu'r brawddegau a gasglwyd erbyn diwedd y daith gerdded i greu darn o gelf teipograffi.

### Adnoddau Taith Gerdded Synhwyraidd

- **Map Taith Synhwyraidd.**
- **Cardiau cerdded synhwyraidd.**
- **Clipfyrddau.**
- **Corlannau.**
- **Stethosgopau.**
- **Cadachau glanhau.**
- **Mapiau sain.**
- **Cwmpawd.**
- **Cwpanau plastig.**
- **Potel o ddŵr.**
- **Blychau wyau glân.**
- **Chwyddwydrau.**
- **Drychau.**
- **Fframiau natur.**
- **Paledi arlunydd.**





# OLWYN LLIWIAU MIGWYN






# GWISGO I FYNY MIGWYN





# GWISGO I FYNY MIGWYN





# GWISGO I FYNY MIGWYN





# FFEIL O FFEITHIAU MIGWYN

**1 Mae rhai mathau o fwsogl yn goleuo yn y tywyllwch**



**2 Mae migwyn wedi cael ei ddefnyddio at sawl diben yn y gorffennol.....**

- trin clwyfau yn ystod y Rhyfel Byd 1af
- mewn basgedi crog
- mewn cewynnau
- mewn compost
- mewn shampŵ



**3 Tua chant pum deg pum miliwn (155,000,000) o flynyddoedd yn ôl, yn ystod y cyfnod Mesosoig, dechreuodd Migwyn ffynnu yn yr Hemisffer Gogleddol, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig**



**4 Mae haenau is y mawn yn ffurfio glo**




**5 'Gallwch chi eu berwi, eu pobi, eu rhoi mewn rhewgell, eu gwasgu, eu dadhydradu, neu hyd yn oed eu gyrru i'r gofod mewn ffrwydrad. Does dim ots-gall Arafsymudwyr oroesi unrhyw beth, fwy neu lai. Efallai bod y creaduriaid dŵr wythgoes hyn yn fach, ond maen nhw'n gallu gwrthsefyll bron unrhyw beth\*' ac maen nhw'n byw yng ngħoexxanu'r Migwyn!**

<https://kids.nationalgeographic.com/animals/invertebrates/facts/tardigrade>






# ESBONIO ADDASIADAU MIGWYN




## Deilen o dan feicrosgôp





# ESBONIO ADDASIADAU MIGWYN

<b>Coesyn</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gwahanol haenau i'r coesyn – mae'r haen ganolog yn rhoi cryfder.</li> <li>Ar y tu allan mae celloedd yn llawn dŵr y mae organebau microsgopig yn byw ynddynt!</li> <li>Mae'r coesyn yn storio bwyd sy'n cael ei greu yn y dail.</li> <li>Ar waelod y planhigyn does dim gwreiddiau i angori'r planhigyn na sugno dŵr i fyny.</li> <li>Mae gwaelod y coesyn yn marw ac yna'n pydru'n araf iawn ac yn cronni i ffurfio mawn. Y rheswm am hynny yw'r lefelau asid a'r diffyg ocsigen mewn mawngorsydd dwrlawn.</li> </ul>
<b>Capitwlwm</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhan uchaf y planhigyn yn cynnwys clwstwr o ganghennau.</li> <li>Gall ei siâp helpu i nodi pa rywogaeth o figwyn sydd dan sylw.</li> <li>Mae planhigion migwyn yn tyfu'n araf iawn o'r brig.</li> </ul>
<b>Canghennau crog (hynny yw canghennau sy'n hongian i lawr)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r canghennau hyn yn tyfu i lawr y coesyn.</li> <li>Maen nhw'n hir ac yn denau.</li> <li>Maen nhw'n gweithredu fel wic ac yn helpu'r dŵr i deithio i ran uchaf y planhigyn oherwydd nad oes gwreiddiau.</li> </ul> 
<b>Canghennau dargyfeiriol (canghennau sy'n ymledu)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canghennau yw'r rhain syn tyfu i wahanol gyfeiriadau neu'n ymledu.</li> <li>Mae'r canghennau hyn yn tyfu allan ac i fyny o'r coesyn.</li> <li>Maent yn fyr ac yn drwchus.</li> <li>Gall y canghennau hyn dorri'n rhydd a thyfu i greu planhigyn newydd sbon!</li> </ul>
<b>Dail</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dail yn gorchuddio rhan fyw'r planhigyn ac yn cynnwys gwahanol fathau o gelioedd.</li> <li>Mae rhai celloedd yn farw ac mae ganddyn nhw fandwll sy'n caniatáu i ddŵr ddod i mewn, fel bod y Migwyn yn gallu storio hyd at 20 gwaith ei bwysau ei hun mewn dŵr.</li> <li>Mae'r celloedd eraill yn fyw ac yn cynnwys Cloroffyl gwyrdd, y mae'r planhigyn yn ei ddefnyddio gyda dŵr a charbon deuocsid yng ngolau'r haul i greu siwgwr (glwcos), sy'n rhoi ynni iddyn nhw.</li> </ul>
<b>Capsiwl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r capsawl yn tyfu o frig y planhigyn ac yn rhyddhau sborau sy'n cael eu cario gan y gwynt neu ddŵr i ardaloedd newydd lle maen nhw'n tyfu'n blanhigion newydd.</li> </ul>





# ADDASIADAU MIGWYN



## Cyfarwyddiadau:

Lluniwch eich diagram eich hun o Figwyn

Ychwanegwch labeli ar gyfer

- Y Coesyn
- Y Capitwlwm
- Cangen grog
- Cangen ymledol
- Dail
- Capsiwl

Nodwch frawddeg neu air allweddol ym mhob un o'r blychau isod i ddangos sut mae pob rhan o'r Migwyn wedi addasu i oroesi mewn amgylchedd gwlyb, corsiog.

<b>Coesyn</b>	
<b>Capitwlwm</b>	
<b>Cangen grog</b>	
<b>Cangen ymledol</b>	
<b>Deilen</b>	
<b>Capsiwl</b>	





# ADDASIADAU MIGWYN



## Cyfarwyddiadau:

Lluniwch eich diagram eich hun o Figwyn

Ychwanegwch labeli ar gyfer

- Y Coesyn
- Y Capitwlwm
- Cangen grog
- Cangen ymledol
- Dail
- Capsiwl

Ysgrifennwch y frawddeg gywir ym mhob  
un o'r blychau isod i ddangos sut mae  
Migwyn wedi addasu i oroesi mewn  
amgylchedd gwlyb, corsiog.


- Sugno dŵr i mewn.
- Torri i ffwrdd i ffurfio planhigyn newydd.
- Rhoi cryfder i'r planhigyn.
- Rhyddhau sborau sy'n ffurfio planhigion  
newydd.
- O ble mae'n tyfu.
- Cynnwys celloedd gwyrdd sy'n creu.  
bwyd/ynni a chelloedd gwag sy'n dal  
dŵr.

<b>Coesyn</b>	
<b>Capitwlwm</b>	
<b>Cangen grog</b>	
<b>Cangen ymledol</b>	
<b>Deilen</b>	
<b>Capsiwl</b>	





# YMCHWILIO I FIGWYN



**Pa mor Sbyngaidd yw eich Mwsogl?**

## Bydd arnoch chi angen:

Mwsogl Migwyn

Dŵr

Cynhwysydd gwag

Jwg mesur

Clorian bwysyo

Pen / Pensil

## Cyfarwyddiadau:

1. Pwyswch gynhwysydd gwag a chofnodi'r pwysau. (A)
2. Rhowch lond llaw o Figwyn yn y cynhwysydd gwag, ei bwysyo a chofnodi'r pwysau. (B)
3. Cyfrifwch bwysau'r Migwyn sych. (C)
4. Rhagfynegwch bwysau a chyfaint y dŵr y bydd y Migwyn yn ei ddal, a chofnodwch hynny isod.
5. Ychwanegwch ddŵr at y cynhwysydd a'r Migwyn sych a'i adael am o leiaf 1 awr.
6. Draeniwch y dŵr dros ben o'r cynhwysydd, gan ofalu nad ydych yn colli nac yn gwasgu'r Migwyn.
7. Pwyswch y cynhwysydd a'r Migwyn gwlyb a chofnodwch y pwysau. (D)
8. Cyfrifwch bwysau'r Migwyn gwlyb. (E)
9. Gwasgwch y Migwyn gwlyb uwchben y jwg mesur a chofnodi swm y dŵr yn y jwg. (F)

## Canlyniadau:

Ystyriwch pa mor gywir oedd eich rhagfynegiadau.

Ystyriwch a oedd hwn yn brawf teg. Allech chi wneud y prawf yn decach?

Allwch chi gyfrifo, i'r cyfanrif agosaf, sawl gwaith ei bwysau ei hun roedd eich Migwyn yn ei ddal mewn dŵr? (G)

## Rhagfynegiadau:

Pwysau'r dŵr bydd y mwsogl yn ei ddal (g)

Cyfaint y dŵr bydd y mwsogl yn ei ddal ( $cm^3$ ) cofiwch fod

1ml = 1cm<sup>3</sup>



## Tabl canlyniadau:

A	B	C	D	E	F	G
Pwysau'r cynhwysydd gwag	Pwysau'r cynhwysydd a'r mwsogl sych	Pwysau'r migwyn sych (B-A)	Pwysau'r cynhwysydd a'r migwyn gwlyb	Pwysau'r migwyn gwlyb (D-A)	Cyfaint y dŵr roedd y migwyn yn ei ddal	Sawl gwaith ei bwysau ei hun? (E÷C)
g	g	g	g	g	cm <sup>3</sup>	





# CERDYN TAITH GERDDED SYNHWYRAIDD



## Ffeithiau Ystlumod:

- Mamaliaid yw ystlumod – sy'n golygu eu bod yn rhoi genedigaeth i rai bach byw, fel arfer un y flwyddyn.
- Mae ystlumod yn byw mewn clwydi (mannau lle mae cysgod i ystlumod) fel arfer yn ymyl coetir, gwlyptir a gerddi. Maen nhw'n gaeafgysgu yn ystod misoedd y gaeaf ac yn gadael eu clwydi gaeaf ym mis Ebrill.
- Mae ystlumod yn byw mewn cytrefi (grwpiau mawr).
- Dim ond rhyw 5cm o hyd yw'r Ystlum Bach, felly mae'n gallu gwasgu mewn i gilfachau.
- Creaduriaid nosol yw ystlumod – mae hynny'n golygu eu bod yn effro yn y nos.
- Gall Ystlumod Bach fwyta rhyw 3,000 o bryfed, e.e. gwifynod, mewn un noson, ac maen nhw'n bwydo yn y gwyll yn bennaf (wrth iddi nosi)
- Mae ystlumod yn defnyddio ecoleoli i ganfod ysglyfaeth ac i hedfan o gwmpas. Mae'r seiniau sy'n dod o'u cegau, fel arfer gwichiadau a sgrechfeydd trawiad uchel na all pobl eu clywed, yn taro yn erbyn amrywiol arwynebau ac yn teithio'n ôl atyn nhw.
- Mae ystlumod yn gallu gweld!

## Gweithgaredd Ystlumod:

- Mae'r dysgwyr yn cymryd tro i ddefnyddio stethosgop (gofalwch eich bod yn glanhau'r rhannau clust rhwng pob defnydd) i wrando ar seiniau na all eu clustiau eu clywed heb gymorth.
- Bydd y dysgwyr yn rhoi'r stethosgop ar goed, yn ei symud trwy laswellt hir ac yn ei gyffwrdd yn erbyn planhigion a blodau. Gall y dysgwyr geisio gwrando ar ddeilen yn cael ei gwasgu, ffon yn cael ei thorri a mochyn y coed yn cropian.
- Fel grŵp, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn ysgrifennu geiriau, cyffelybiaethau a brawddegau llawn dychymyg i ddisgrifio'r seiniau glywson nhw.





# CERDYN TAITH GERDDED SYNHWYRAIDD



(c) Dan Carrington

## Ffeithiau'r Troellwr:

- Aderyn yw'r Troellwr.
- Aderyn nosol yw'r Troellwr – sy'n golygu ei fod yn effro yn ystod y nos.
- Mae'r Troellwr hefyd yn aderyn cyfnosol – sy'n golygu ei fod yn fwyaf actif yn y gwyll (gyda'r hwyr) ac ar doriad gwawr (yn gynnar yn y bore) pan fydd yn bwyta llwyth o wyfynod!
- Mae'r Troellwr yn byw mewn ardaloedd coetir agored, ar rostir a gweundir. Mae'n nythu ar y ddaear felly mae mewn perygl o gael ei fwyta neu o gael anifeiliaid eraill fel llwynogod yn bwyta'i wyau (2 fel arfer).
- O ganlyniad, mae gan y Troellwr guddliw – mae ei blu yn edrych fel rhisgl coeden!
- Mae'r Troellwr yn ymweld â'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys ardal prosiect y Mawndiroedd Coll, o fis Mai i fis Medi i fridio (magu cywion). Yna mae'n mudo (hedfan) i Affrica ym mis Hydref, ac yn aros yno tan fis Ebrill.
- Mae'r adar yn defnyddio galwadau a chaneuon i gyfathrebu (siarad) â'i gilydd. Mae'r troellwyr gwryw yn gwneud sŵn "troelli" neu "rincio".

## Gweithgaredd Troellwr:

- Ar eu pennau eu hunain, bydd y dysgwyr yn aros yn llonydd ac yn cadw'n dawel i wrando ar seiniau eu hamgylchedd.
- Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu geiriau neu'n tynnu lluniau ar ddarn o bapur i ddangos beth gallan nhw glywed.
- All y dysgwyr greu map seiniau trwy roi eu geiriau neu eu lluniau ar y papur i ddangos o ba gyfeiriad clywson nhw'r sŵn? E.e. gallan nhw ysgrifennu 'FI' neu dynnu llun ohonyн nhw eu hunain yng nghanol y papur. Os byddan nhw'n clywed aderyn yn trydar o'u blaen, byddan nhw'n cofnodi hynny ar frig y papur (y gogledd). Os byddan nhw'n clywed car tu ôl iddyn nhw, byddan nhw'n cofnodi hynny ar waelod y papur (y de). Os ydych chi'n defnyddio pwyntiau cwmpawd, gofalwch fod y dysgwyr yn gyfarwydd â'r cyfeiriadau cyn cychwyn.
- Fel grŵp, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn ysgrifennu geiriau, cyffelybiaethau a brawddegau llawn dychymyg i ddisgrifio'r seiniau glywson nhw.





# CERDYN TAITH GERDDED SYNHWYRAIDD



## Ffeithiau am y Fritheg Berlog Fach:

- Mae gan y pili pala yma 4 aden gyda smotiau du a phatrwm V. O dan yr adenydd mae patrwm perlog sy'n rhoi ei enw i'r pili pala.
- Mae'r pili palod yn dodwy wyau sy'n deor i greu lindys.
- Mae lindys y pili pala yma yn bwyta planhigion o'r enw'r Fioled a Fioled y Gors, sy'n tyfu mewn cynefinoedd rhostir a glaswelltir gwlyb.
- Mae pili palod yn torheulo (gorwedd yn yr haul) i'w gwneud yn fwy actif.
- Mae gan bili palod dafod hir o'r enw proboscis sy'n gweithio fel gwelltyn i dynnu neithdar i'w fwyta o blanhigion.
- Mae pili palod yn synhwyro'r rhan fwyaf o arogleuon trwy eu teimlyddion, sydd wedi'u gorchuddio â llu o gemodderbynyddion.
- Mae pili palod yn defnyddio'u teimlyddion i aroigli neithdar a fferomonau (persawr pili palod gwryw sydd am ddenu benyw).

## Gweithgaredd y Fritheg Berlog Fach:

- Bydd y dysgwyr yn defnyddio deunyddiau naturiol i greu "persawr" maen nhw'n meddwl byddai rhywun arall yn hoffi ei aroigli.
- Yn ddelfrydol, dylai'r dysgwyr ddefnyddio pethau maen nhw'n eu canfod ar y llawr ac osgoi deunyddiau peryglus, gwenwynig neu brin.
- I ryddhau arogleuon y deunyddiau naturiol, dylai'r dysgwyr eu rhwygo, eu crensan neu eu gwasgu cyn eu hychwanegu at eu cwpan.
- Gall ychwanegu diferyn o ddŵr at y cwpan ddwysáu'r arogl.
- Dylai'r dysgwyr rannu eu "peraroglau" ar ôl eu cwblhau.
- Fel grŵp, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn ysgrifennu geiriau, cyffelybiaethau a brawddegau llawn dychymyg i ddisgrifio'r arogleuon.





# CERDYN TAITH GERDDED SYNHWYRAIDD



## Ffeithiau am y Wiber:

- Mae gan wiberod batrwm igam ogam ar eu cefn, sy'n gweithredu fel cuddliw ond hefyd yn rhybudd, yn enwedig i adar sydd am eu bwyta.
- Mae gwiberod yn byw mewn nythod mewn cynefinoedd coetir a phrysgwydd, ac maent yn bwyta llygod, madfallod, adar ifanc, brogaod a madfallod dŵr.
- Ymlusgiad yw gwiberod – mae hynny'n golygu bod ganddyn nhw groen sych, cennog, ac yn dodwy wyau plisgyn meddal. Fodd bynnag, mae'r gwiberod benyw yn cadw'r wyau yn eu cyrrf i'w cadw'n gynnes nes iddyn nhw roi genedigaeth i 6-20 o wiberod ifanc.
- Mae nadroedd yn torheulo (gorwedd yn yr haul) i'w helpu i fod yn fwy actif. Maen nhw'n gaeafgysgu.
- Mae gan nadroedd fecanodderbynyddion (nerfau synhwyridd) ar hyd croen eu cyrff, sy'n gysylltiedig â chortyn madruddyn y cefn. Mae'r rhain yn golygu bod nadroedd yn gallu teimlo dirgryniadau trwy'r ddaear. Mae'r dirgryniadau hynny'n symud trwy'r corff ac ar hyd nerfau'r meingefn i'r ymennydd, lle maen nhw'n cael eu hadnabod fel seiniau.
- Y wiber yw'r unig neidr wenwynig yn y Deyrnas Unedig, ond dyw hi ddim yn ymosodol, a dim ond i amddiffyn ei hun os yw'n teimlo dan fygythiad y bydd yn brathu. Maent yn greaduriaid swil yn naturiol, ac mae'n well ganddynt ymlusgo i ffwrdd os ydynt yn clywed rhywbeth yn dod.
- Mae gwiberod yn greaduriaid prin, felly dylid eu hedmygu o bell oherwydd bod eu gweld yn ddigwyddiad anghyffredin.

## Gweithgaredd Gwiberod:

- Bydd y dysgwyr yn dod o hyd i ddeunyddiau naturiol sy'n teimlo'n wahanol i'w gilydd ac yn eu rhoi mewn blwch wyau glân.
- Yn ddelfrydol dylai'r dysgwyr ddefnyddio pethau maen nhw'n eu canfod ar lawr ac osgoi deunyddiau peryglus, gwenwynig neu brin.
- Gall y dysgwyr naill ai ddod o hyd i 6 gwead gwahanol neu 3 enghraift o wead neu nodweddion cyferbyniol, e.e. pigog a llyfn, caled a meddal, garw ac esmwyth.
- Fel grŵp, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn ysgrifennu geiriau, cyffelybiaethau a brawddegau llawn dychymyg i ddisgrifio'r gwahanol weadau deimlon nhw.





# CERDYN TAITH GERDDED SYNHWYRAIDD



## Ffeithiau am y Chwilen Deigr Werdd:

- Pryfed mawr, metalig (sgleiniog), gwyrdd yw Chwilog Teigr Gwyrdd, sydd â choesau porffor-efydd a smotiau mawr hufennog ar eu hadennydd.
- Mae Chwilog Teigr Gwyrdd yn anodd iawn eu canfod oherwydd bod ganddyn nhw goesau hir sy'n eu gwneud yn ystwyth (gallan nhw symud o gwmpas yn hawdd) ac maen nhw'n rhedwyr ardderchog – nhw yw un o'r pryfed cyflymaf ym Mhrydain.
- Fe welwch Chwilog Teigr Gwyrdd fel arfer ar ddiwrnodau heulog, llachar ar dir moel mewn cynefinoedd gweundir, rhostir a glaswelltir tywodlyd, pan fydd yr heulwen yn disgleirio ar eu cefnau sgleiniog.
- Mae Chwilog Teigr Gwyrdd yn ffafrio tir noeth oherwydd ei fod yn cynhesu yn yr haul, ac mae'r gwres yn eu helpu i symud yn gyflymach ac yn helpu eu larfâu (eu rhai ifanc) i dyfu yn y wâl.
- Mae gan Chwilog Teigr Gwyrdd safnau ffyrnig a llygaid eithriadol, y maen nhw'n eu defnyddio i ddal ysglyfaeth wrth iddyn nhw orwedd yn eu gwâl yn aros i bryfed eraill fynd heibio. Ond pan fydd Chwilen Deigr Werdd yn rhedeg, byddan nhw'n symud mor gyflym nes bod y byd yn troï'n aneglur.

## Gweithgaredd Chwilen Deigr Werdd:

- Bydd y dysgwyr yn defnyddio chwyddwydr i edrych yn fanwl ar fyd natur.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio drych i weld adlewyrchiad o fyd natur.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio 'ffrâm natur' i hoelio'u sylw ar dirlun/wrthrych penodol.
- Bydd y dysgwyr yn ystyried pa batrymau, lliwiau a siapau welson nhw trwy edrych yn fanwl ar y byd.
- Fel grŵp, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn ysgrifennu geiriau, cyffelybiaethau a brawddegau llawn dychymyg i ddisgrifio'r adlewyrchiadau, y patrymau, y lliwiau a'r siapau welson nhw.





# CERDYN TAITH GERDDED SYNHWYRAIDD



(c) Peter Timming

## Ffeithiau am Lygod Pengrwn y Dŵr:



- Mamaliaid yw Llygod Pengrwn y Dŵr – mae hynny'n golygu bod eu rhai bach yn cael eu geni'n fyw. Maen nhw'n cael hyd at 5 mewn torllwyth, a 3-4 torllwyth mewn blwyddyn.
- Mae gan Lygod Pengrwn y Dŵr flew brown fel cnau castan, trwyn crwn, smwt, clustiau bach a chynffon flewog.
- Mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn byw mewn cynefinoedd gwlyb – ar hyd afonydd ac o amgylch corsydd, rhostir a mawnogydd.
- Mae'n anodd iawn cael hyd i Lygod Pengrwn y Dŵr, ond maen nhw'n gadael "arwyddion" o'u presenoldeb.
- Arwyddion brown: mae carthion Llygod Pengrwn y Dŵr yn frown, gyda phen crwn, a does dim arogl iddyn nhw. Mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn gadael pentyrrau o garthion, sy'n cael eu galw'n geudai (toiledau), y tu allan i'w gwâl i nodi eu tiriogaeth. Mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn gadael eu hôl ar eu tiriogaeth trwy rwbio'u traed ôl (y rhai cefn) ar y chwarennau sawr ar eu brest, ac yna curu'u traed ar eu carthion.
- Arwyddion gwyrdd: Mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn hoffi eistedd a bwyta yn yr un man. Maen nhw'n gadael pentyrrau o laswellt a choesynnau wedi'u cnoi, gydag ongl o 45 gradd, wrth ymyl y dŵr.

## Gweithgaredd Llygoden Bengron y Dŵr:

- Bydd y dysgwyr yn casglu cynifer o ddeunyddiau naturiol gwahanol â phosibl sy'n frown a gwyrdd i gwblhau "Palet Artist". Darn o gerdyn â dwy linell o dâp gludiog dwyoachrog arno yw'r palet artist.
- Yn ddelfrydol dylai'r dysgwyr ddefnyddio deunyddiau maen nhw'n cael hyd iddynt ar y llawr, a dylen nhw osgoi deunyddiau peryglus, gwenwynig neu brin.
- Bydd y dysgwyr yn trefnu eu deunyddiau ar ddwy linell wahanol (un llinell werdd ac un llinell frown). Gall y dysgwyr hefyd roi cynnig ar drefnu eu deunyddiau yn ôl eu lliw, o'r goleuaf i'r tywyllaf. Efallai bydd y dysgwyr yn cael tynnu'r gorchudd oddi ar un darn o'r tâp gludiog ar y tro yn haws, a dylen nhw fod yn ofalus nad ydyn nhw'n gollwng sbwriel.
- Fel grŵp, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn nodi geiriau, cyffelybiaethau a brawddegau llawn dychymyg i ddisgrifio'r deunyddiau a'r lliwiau a ddefnyddiwyd.



# MAP SAIN





FFRÂM NATUR

# Rwy'n



# Natur

Gweithgarwch wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd caredig gan  
<https://childscopyabc.wordpress.com/>





# CELF TEIPOGRAFFEG

## Cyfarwyddiadau Celf Teipograffeg

Defnyddiwch yr iaith greadigol a dychmygus sy'n dod i'ch meddwl yn ystod taith gerdded synhwyraidd i greu darn o gelf teipograffeg i gyfleo eich tirwedd leol. Ceisiwch wneud braslun o'r holl dirwedd neu defnyddiwch siâp o'r dirwedd.

Meddyliwch am y ffont y byddwch yn ei defnyddio ar gyfer pob gair neu frawddeg. Gellir newid lliw, maint, siâp, steil ac eglurder (pa mor hawdd ei darllen yw'r testun) i adlewyrchu'r dirwedd a dangos ystyr gair.



**Cymylau blewog  
Dail Gwyrdd  
AROGLEUON CRYF  
Rhisgl Anwastad  
petalau Meddal  
Cerrig Garw  
FFYN CRENSIOG**






# ATODIAD

Masgot y prosiect - Bog Dog  
(cynhyrwyd gan ddeallusrwydd artiffisial)







# LLEOLIAD LLYGODEN BENGRON Y DŴR AAC CASTELL NOS



Mae gweld llygoden y dŵr yn ddigwyddiad prin iawn ond gall eu tail ddangos eu bod yn bresennol. Mae'r cylchoedd ar y mapiau'n dangos ble daeth ecolegwyr y prosiect o hyd i dail llygoden y dŵr yn Ardal Adfer Cynefinoedd Castell Nos cyn ac ar ôl y gwaith adfer.

**Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am effaith adfer mawndiroedd ar lygoden y dŵr?**





# SAIN STORI'R MAWNDIROEDD COLL



## Atgofion Plentyndod gan Alun Davies

Nodwedd orau llethrau mynydd Pen Pych, oedd yn rhyfeddol o amrywiol, oedd eu bod yn rhoi cyfle i ni blant chwarae, ac yn ein meithrin yn hynny. Roedd rhaff, a gafwyd yn anghyfreithlon o'r lofa trwy dad rhywun, fwy na thebyg, yn sownd wrth dderwen ac yn darparu un o'r sigleni rhaffau gorau yng Nghymru. Ar ddechrau gwyliau'r haf, cai gwersylloedd eu hadnewyddu o'r flwyddyn flaenorol, os nad oedd y defaid wedi'u defnyddio ar gyfer eu baw yn ystod y gaeaf; os felly, byddai creigiau a changhennau newydd yn cael eu casglu.

Dyma lle byddai arddegwyr a myfyrwyr fel ei gilydd yn mwynhau mynd i gerdded. Mae Pen Pych yn unigryw yng Nghymru oherwydd bod ganddo dair ochr a chop a sydd bron yn wastad – soniwyd ei fod yn debyg i Table Mountain yn Cape Town, De Affrica. Unwaith bydden ni wedi cyrraedd arwyneb cymharol wastad y copa, a'n gwylfan oedd bron yn y cymylau, bydden ni'n gwyllo bysus deulawr coch tywyll cwmni trafnidiaeth y Rhondda yn teithio i lawr y cwm, a stêm o'r trenau wrth iddyn nhw adael Gorsaf Treherbert. Bydden ni'n gwledda ar fara menyn a brechdanau jam. Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, mae lle yn fy nghalon o hyd i'r hen fynydd, er mod i bellach yn gadael y dringo i'r copa i eraill.

**Gwrandewch ar Ap Cerdded Digidol Lost Peatlands,  
Llwybr Cwm Saerbren,  
Pumed srar ar y llwybr.**





# SAIN STORI'R MAWNDIROEDD COLL



## John, Freda ac Lee sy'n adroedd yr Hanes

Yn ôl y chwedlau roedd parc canoloesol neu warchodfa hela yn ardal Cwm Parc ond daw gwir gymeriad y pentref hwn o'i etifeddiaeth mwyngloddio; disgrifir hyn yn fanwl yn y cyhoeddiad "History of Cwm Parc – King Coal invades a Sylvan Valley", a ysgrifennwyd gan Gwyn Prosser yn 1923.


Yn 1866 dechreuodd Glofa'r Parc gynhyrchu glo, ac yn 1870 suddwyd Glofa Dâr; roedd y naill a'r llall dan law cwmni Ocean Coal, ond yn y pen draw fe'u cyfunwyd gan y Bwrdd Glo i greu Glofa'r Parc a'r Dâr yn 1954. Wrth i'r pyllau glo agor ac i lowyr lifo i'r ardal, codwyd rhesi o dai, un o nodweddion amlwg y pentref, i ymateb i'r galw, a sefydlwyd Cwm Parc, yn glyd ar waelod cwm rhewlifol.

Oherwydd ei leoliad, roedd Cwm Parc yn cael ei ystyried yn lle diogel i faciwîs yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ond yn 1941, ar noson 29 Ebrill, cafodd Cwm Parc ei fomio gan y Luftwaffe, o bosib trwy gamgymeriad wrth iddyn nhw ollwng eu bomiau i ysgafnhau eu llwyth wrth ddychwelyd o gyrch aflwyddiannus ar borthladdoedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Lladdwyd 27 o bobl, gan gynnwys nifer o blant.

Yn 1966, caewyd Glofa'r Parc a'r Dâr, gan gau'r bennod honno yn hanes y pentref. Fodd bynnag, wrth i ffatrioedd newydd gyrraedd, fel Polikoffs yn 1939, daeth cyfleoedd cyflogaeth newydd a gynhaliodd yr ardal trwy'r 1960au a'r 1970au. Nawr bod y pyllau glo a'r ffatrioedd wedi diflannu, mae'r bobl leol yn hiraethu am a fu, ac yn cofio'n annwyl am gyfnod pan oedd cymunedau'n glos; bydden nhw'n cymdeithasu gyda'i gilydd yn ogystal â gweithio gyda'i gilydd, ac yn cefnogi ei gilydd i ddod trwy gyfnodau heriol.

**Gwrandewch ar Ap Cerdded Digidol Lost Peatlands,  
Llwybr Cwmparc,  
Srar cyntaf ar y llwybr.**





## Rheilfforddau, darllen gan Lynda Newman

O olygfan sy'n yn Cymer, byddech chi ar un adeg wedi bod yn dyst i'r holl sŵn a'r awyr yn llawn ager oedd yn gysylltiedig â Rheilffordd Mwynau De Cymru; gwnaed y gwaith peirianeg gan Brunel, ac fe'i hadeiladwyd yn yr 1860au i symud glo o lofeydd Cwm Afan i'r doc yn Llansawel.

Mae gweddillion traphont trawstiau rhwyllog haearn bwrw, oedd yn cysylltu Rheilffordd Mwynau De Cymru â lein Dyffryn Llynfi GWR yn 1878, yn dal i'w gweld. Ar draws y bont, mae'r "Ystafelloedd Lluniaeth" yn dal yno; ar un adeg roedd hon yn orsaf llawn prysurdeb ar gyfer teithwyr a gweithwyr glo, a dyma lle bu fy nhadcu, William Morgan, (dates) yn gyfrifol am y bocs signalau. Costiodd y bont £11,251 pan gafodd ei hadeiladu yn 1925, a phan agorwyd hi yn 1926, yn 150 troedfedd, hi oedd un o'r pontydd haearn a choncrid un bwa hwyaf ym Mhrydain.

Daeth gwasanaethau teithwyr i ben ar y rheilffordd yn y 1930au, a chaeodd y lein yn llwyr yn y 1970au, ond lle bu'r trac i Lyncorwg, bellach mae llwybr beicio a llwybr i gerddwyr yn mynd heibio i safle glofa weithredol Nantawlaeth gynt.

**Gwrandewch ar Ap Cerdded Digidol Lost Peatlands,  
Llwybr Cymer,  
Srar cyntaf ar y llwybr.**





# ENGHRAIFFT O BANEL DEHONGLI


A Project Community Wild Space  
Prosiect Manna Gwylt Cymunedol

## HERITAGE TREFTADAETH

Hender'r Mynydd, translated to 'Old Mountain Village', is the remains of an unenclosed Iron Age settlement.

The site was excavated in 1921 and the small amounts of iron and evidence of leather found suggest a seasonal nature to the site's occupation. Commercial forestry and wind farms are now evident in the landscape but, even under changing land uses, peat remains holding water, carbon and stories of the past.

**Gweddiillion anheddiad heb ei amgáu o Oes yr Haearn yw Hender'r Mynydd.** Pan gloddiwyd y safle yn 1921 darganfuwyd rhai gweddillion heaarn a awgrymaid y safle ym anheddiad tymhorol. Coedwigiaeth fasnachol a ffwrriad gwynt syn flaenllaw yn y tirlun erbyn hyn a hyd yn oed pan fydd allan o'r golwg o dan ddefnyddiau tir newidiol, mae'r mawr yn dalyno, ac yn storio nid carbon a diwr yn unig, ond hefyd haneson o'r goffennol.




Crofta  
Treftadaeth  
Heritage  
Fund



## BIODIVERSITY BIOAMRYWIAETH

The ring of cwms that encircle the landscape are the birthing places of the glaciers that carved out the Rhondda Valley. A cooler and wetter climate 7000 years ago saw the arrival of Sphagnum mosses and sedges, causing peat bogs to establish. Formed here from the slow breakdown of bog mosses, blanket bogs in the uplands of the valleys provide wetland habitat for Water Vole and amphibians. Other upland habitats such as heathland are home to reptiles, including Adders.

**Y cylch o gynoedd sy'n amgáu'r tirlun yw'r manau lle ganwyd y rheilffoedd a geriodd Gwm Rhondda.**  
Arweiniodd hinsawdd oerach a gwylypach, 7000 o flynyddoedd yn ôl, at ddifodiad y mlynwy'n aros, a serdylu'r mawngorsydd. Mae'r gorgosydd a ymffurfioedd ymdatod yn araf, yn darparu cynelioedd gwylpytr ar gyfer Llygoden Bengron y Dŵr ac amffibiaid. Mae cynelioedd eraill yr ucheldir, megis yr hostir, yn gartref i ymlusgliaid, gan gymhwys y Wiber.



## FIND OUT MORE DARGANFOD MWY

The site sits adjacent to the Pen y Cymoedd windfarm and is designated as a Site of Importance for Nature Conservation. Discover more here:  
Mae'r safle hwn ger ffwrmiw ynt Pen y Cymoedd ac wedi'i ddynodin 'Safile o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. Cewch ddarganfod mwya yma:



OUR PARTNERS EIN PARTNERIAD



CoedLleol  
Small Woods





# ORIEL SAFLEOEDD AAC Y PROSIECT



Castell Nos RhCT:



Castell Nos RhCT: Rafft monitro minc ar y pwll



# ORIEL SAFLEOEDD AAC Y PROSIECT



**Castell Nos RhCT:** Golygfa o'r Awyr



**Castell Nos RhCT:** Ar ôl y gwaith adfer – argaeau mawn yn rhwystro'r sianeli draenio



# ORIEL SAFLEOEDD AAC Y PROSIECT



Cregan RhCT: Cyn y gwaith adfer



Cregan RhCT: Cyn y gwaith adfer



# ORIEL SAFLEOEDD AAC Y PROSIECT



**Cregan RhCT:** Ar ôl y gwaith adfer



**Cregan RhCT:** Ar ôl y gwaith adfer



# ORIEL SAFLEOEDD AAC Y PROSIECT



Cwm Saerbren RhCT: Cyn y Gwaith Adfer – Glaswellt y Bwla (*Molinia*)



Cwm Saerbren RhCT: Ar ôl y gwaith adfer






# ORIEL – SAFLEOEDD LIE GWYLLT CYMUNEDOL Y PROSIECT



**Blaenrhondda RhCT:** Golygfa tuag at Tynewydd



**Pen Cwm Rhondda Fawr RhCT:** Golygfa i'r De uwchben Tynewydd i gyfeiriad Treherbert





# ORIEL – SAFLEOEDD LIE GWYLLT CYMUNEDOL Y PROSIECT



**Hendre'r Mynydd RhCT:** View across to Pen y Cymoedd Windfarm & Pen Pych Mountain (left)



**Cwmparc RhCT:**





# ORIEL – SAFLEOEDD LIE GWYLLT CYMUNEDOL Y PROSIECT



**Gwynfi CNPT:** Golygfa ar draws y cwm o'r llwybr coedwigaeth



**Cymre CNPT:** Roedd Glofa Nantewlaeth wedi'i lleoli yma o 1919-1948





# ORIEL – SAFLEOEDD LIE GWYLLT CYMUNEDOL Y PROSIECT



Glyncorrwg CNPT: Golygfa ar draws y cwm



Glyncorrwg CNPT: Ardal bori





# ORIEL SAFLEOEDD Y PROSIECT



**Mynydd Pen Pych RhCT:** Golygfa draw at heol y Rhigos




**Castell Nos RhCT:** Pwll cors






# ORIEL SAFLEOEDD Y PROSIECT



**Cwmparc RhCT:** Tirwedd cwm a grëwyd gan iâ



**Llyn Fawr RhCT:**



# ORIEL ADFER MAWNDIROEDD



sianel ddraenio:



sianel ddraenio:



# ORIEL ADFER MAWNDIROEDD



**Argaeau coed:** Rhwystro sianeli draenio ac ardaloedd sydd wedi erydu



**Contractwyr:** Fflilio bonion coed



# ORIEL TREFTADAETH



© Rhondda Cynon Taf Council



**Hendre'r Mynydd RhCT:** Gweddillion Anheddiad Cytiau Oes Haearn Hwyr 800BCE-50AD




© Amgueddfa Cymru




**Postyn Derw Mesolithig Hwyr, Maerdy, RhCT:** 4250 cyn y cyfnod presennol





**Gorsaf Cymer Afan CNPT:** Golygfa i'r Gorllewin a dynnwyd yn 1940, yn dangos yr Orsaf a'r Bont Ddŵr



**Gorsaf Cymer Afan CNPT:**

Golygfa tuag at Glyncorrwg a dynnwyd yn 1965. Defnyddiwyd y rheilffordd i gludo glo ac yna teithwyr, ond daeth yr holl wasanaethau i ben erbyn 1970. (Lein Rheilffordd Mwynau De Cymru, gwaith peirianneg Brunel a agorwyd yn 1863 sy'n mynd dros y bont ddŵr a adeiladwyd yn 1878 – ar y chwth). (Lein Dyffryn Llynfi Great Western – yn y canol) (Lein Reilffordd y Rhondda a Bae Abertawe a Gorsaf Cymer Afan, 'The Refreshment Rooms' bellach – ar y dde)



# ORIEL TREFTADAETH



© Rhondda Cynon Taf Council



**Glofa Fernhill, Blaenrhondda RhCT:** Agorwyd yn 1872 a chaewyd yn 1978. Golygfa tuag at Fynydd Pen Pych 1965



© Glyn Thomas



**Glofa Nantewlaeth, Cymer CNPT:** Suddwyd yn 1919 a chaewyd yn 1948



Cynhyrchwyd diolch i arianwyr y prosiect,  
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a  
phawb sydd wedi ymwneud â'r prosiect a'i  
gefnogi.

